Ysgol Pentreuchaf

18. Polisi Asthma

Canllawiau

1. Rhaid i ddisgyblion gydag asthma gael mynediad at eu meddyginiaeth yn syth.

2. Dylai disgyblion sy'n gallu defnyddio eu hanadlwyr eu hunain gael hawl i'w cario gyda hwy (bydd yn rhaid i rieni gwblhau ffurflen gais i'w plentyn gario eu meddigyniaeth i ddechrau).

3. Os nad yw'r disgybl yn ddigon aeddfed ni gymryd cyfrifoldeb am ei anadlwr ei hun, rhaid i staff sicrhau ei fod yn cael ei storio mewn lle sy'n didogel ond hawdd cael ato.

4. Rhaid labelu pob meddyginiaeth yn eglur gydag enw a blwyddyn y plentyn.

5. Rhaid rhoi gwybod i rieni bob tro os bydd plentyn yn cael plwc o asthma.

6. Dylid dynodi dwyster asthma'r disgybl yn ei Gynllun Gofal Iechyd Unigol. Dylid cynnwys hefyd wybodaeth ar symptomau unigol, neu unrhyw achoswyr arbennig.

7. Os mai dyma ymosodiad asthma cyntaf y plentyn, neu nad oes gwelliant yn y cyflwr, rhaid galw am ambiwlans gan ddilyn y canllawiau isod –

- dim gwelliant 5 – 10 munud ar ôl cymryd meddigyniaeth
- plentyn wedi cynhyrfu, yn anabl i siarad neu'n troi'n las
- plentyn wedi blinio'n lân
- cyflwr y plentyn yn dirywio
- os oes unrhyw amheuon

Casgliad

Mae asthma yn gyflwr cyffredin. nid oes unrhyw reswm pam na all plant sydd ag asthma gymryd rhan mewn holl weithgareddau'r ysgol. Rhaid i ni, fel athrawon, eu helpu i ddatblygu hyder ynddynt eu hunain a gwybod sut i reoli'r cyflwr er mwyn iddynt fyw bywyd llawn yn ddiogel. Er hyn, rhaid gochelu rhag eu gorfodi i gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd os ydynt yn teimlo na ddylent.

Adolygir: Ionawr 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____